

WILLIAMS (TEULU), Bron Eryri (a elwid Castell Deudraeth yn ddiweddarach), Sir Feirionnydd.

DAVID WILLIAMS ('Dewi Heli '; 1799 - 1869), cyfreithiwr, ac aelod seneddol dros sir Feirionnydd

Ganwyd 30 Mehefin 1799 yn Saethon, plwyf Llanfihangel-Bachellaeth, Sir Gaernarfon, mab DAVID WILLIAMS (1754 - 1823) a'i wraig Margaret. Aeth i Lanfyllin at ei frawd John Williams (siryf Meirionnydd, 1841-2), cyfreithiwr, ac yng nghwrs amser bu'n dilyn yr alwedigaeth honno ei hunan, yn bennaf ym Mhwillheli a Phorthmadog; ym Mhorthmadog daeth hefyd yn gyfreithiwr a phen-rheolwr i stad Madocks. Llwyddodd yn fawr, a phrynodd dai a thiroedd, gan ffurfio'r stad yr arferid ei chysylltu â'i blasty a elwid Castell Deudraeth (Bron Eryri gynt; bu ei frawd John Williams yn byw yn Bron Eryri o'i flaen). Fel y gellid casglu oddi wrth ei ffugenw yr oedd iddo beth diddordeb mewn llenyddiaeth; y mae rhai llythyrau a ysgrifennodd at [John Thomas \('Sion Wyn o Eifion'\)](#) ac [Ebenezer Thomas \('Eben Fardd'\)](#) wedi eu cadw yn N.L.W. Cwrtmawr MS. 404. Bu'n glerc yr heddwch yn Sir Feirionnydd, 1842-59, yn un o ddirprwy-raglawiaid y sir honno a Sir Gaernarfon, yn siryf Meirionnydd, 1861-2, a Sir Gaernarfon, 1862-3. Methodd gael ei ddewis yn aelod seneddol (Rhyddfrydwr) dros sir Feirionnydd yn 1859 ac 1865 eithr llwyddodd yn 1868. Priododd, 25 Medi 1841, ag Annie Louisa Loveday (bu farw 16 Mehefin 1904), merch William Williams, bargyfreithiwr, Peniarthucha, Sir Feirionnydd, a bu iddynt deulu lluosog; sylwir yn fyr ar y mab hynaf a'r mab ieuengaf isod. Bu farw 15 Rhagfyr 1869 a chladdwyd ef ym Mhenrhyndeudraeth.

Dilynwyd David Williams yn stad Deudraeth gan ei fab hynaf (Syr) ARTHUR OSMOND WILLIAMS (a grewyd yn farwnig yn 1909), aelod seneddol (Rhyddfrydol) dros sir Feirionnydd, 1900-10; ganwyd 17 Mawrth 1849. Cafodd ei addysg yn ysgol Eton. Daeth yn ustus heddwch ac yn ddirprwy-raglaw yn Sir Gaernarfon, yn gadeirydd sesiwn chwarter ac yn arglwyddraglaw Sir Feirionnydd, ac yn gwnstabl castell Harlech. Priododd, 3 Awst 1880, â Frances Evelyn Greaves, a bu iddynt ddau fab a dwy ferch. Bu farw 28 Ionawr 1927. Bu'r mab hynaf, Osmond Trahaearn Deudraeth Williams (1883 - 1915), yn swyddog ym myddin Prydain yn rhyfel y Boeriaid, daeth yn gapten yn y Welsh Guards yn ystod rhyfel 1914-8, a lladdwyd ef yn 1915 ym mrwydr Loos.

Mab ieuengaf David Williams oedd Leonard Llewelyn Bulkeley Williams (1861 - 1939), meddyg yn Llundain ac awdur; ganwyd 2 Hydref 1861 a chafodd ei addysg yn ysgol Marlborough, ym Mhrifysgol Glasgow (lle y graddiodd fel meddyg), ac yn Ffrainc a'r Almaen. Ysgrifennodd erthyglau i gylchgronau meddygol a gwyddonol, ac ysgrifennodd lawer o lyfrau ar feddygaeth heblaw llyfrau yn ymwneuthur â Paris, Sbaen a Sbaeneg; rhestrir rhai o'i ysgrifeniadau yn *Who's Who*, 1939, ac yn y marw-goffa yn *The Times*, 21 Awst 1939. Bu farw 20 Awst 1939.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 317

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

Edward Davies, *Traethawd ar Enwogion Swydd Feirion, hen a diweddar, yn gelfyddydwy, beirdd, gwyddonwyr, pregethwyr*

E. Breese, *Kalendars of Gwynedd ...* (1873)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Burke's ... Peerage, Baronetage, and Knightage

Debrett's Peerage, Baronetage, Knightage, and Companionage

Baner ac Amserau Cymru, 18 Rhagfyr 1869

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: Osmond Williams](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734715](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

